**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 4ydd Rhagfyr 2018 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:
Cadeirydd: y Cynghorydd Bryan Tomlins; y Cynghorwyr Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan a Gwenno Piette.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**251 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Sheila Davies, Lodwick Lloyd, Aled Roberts a Phil Tomlins ynghŷd â'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**252 Materion Personol**
Fe estynnodd yr Aelodau eu cydymdeimliad gyda'r Cynghoryd Bryan ar golli ei wraig, Mrs Kathleen Tomlins.

**253 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 6ed Tachwedd 2018**
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6ed Tachwedd 2018 fel rhai cywir.

**254 Materion yn codi o'r Cofnodion**

(1) Cofnod 231(5) – Cafodd y ddyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer ail-baentio llinellau'r mannau parcio ym Maes Parcio'r Waun yn y swm o £450. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Tomlins at gais a dderbyniwyd oddi wrth Western Power yn gofyn am linellau melyn i gael eu paentio o flaen yr is-orsaf er mwyn atal parcio gan gerbydau a oedd yn xx mynediad i'r is-orsaf a **PHENDERFYNWYD** cynnwys hwn fel Gwaith ychwanegol yn y contract.

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 4th December 2018 at the Reading Room, Llanon.**

Present:
Chairman: Councillor Bryan Tomlins; Councillors Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan and Gwenno Piette.
Denfer Morgan (Clerk)

**251 Apologies**
Councillor Sheila Davies, Lodwick Lloyd, Aled Roberts and Phil Tomlins together with County Councillor Dafydd Edwards apologised for their inability to attend the meeting.

**252 Personal Matters**
Members extended their sympathy to Councillor Bryan Tomlins on the passing away his wife, Mrs Kathleen Tomlins.

**253 Minutes of the Monthly Meeting held on 6th November 2018**
The Minutes of the Meeting of the Council held on 6th November 2018 were confirmed as being a correct record.

**254 Matters arising from the Minutes**

(1) Minute 231 (5) - The quotation received for repainting the lines for the bays at the Waun Car Park in the sum of £450 was approved. Councillor Bryan Tomlins also referred to the request received from Western Power for yellow lines to be painted in front of the sub-station to prevent parking by vehicles which prevented access to the sub-station and it was also **RESOLVED** to include this additional work in the contract.

**255 Materion Ariannol**

**PENDERFYNWYD**

i) talu'r anfonebau canlynol:

| | |
|---|---|
| Vision ICT | £150 |
| Ground Tech Ltd | £1,800 |
| Glasdon (Drws y Bin Dolffin) | |
| £164.60 | |
| *Cyflog y Clerc (Hyd-Tach-Rhag)* | |
| Mr Denfer Morgan | £605.43 |
| CThEM (TWE) | £151.36 |

ii) paratoi Cyllideb a gosod Praesept 2019-20 yng Nghyfarfod mis Ionawr.

**256 Cais Cynllunio**
Rhoddwyd ystyriaeth i Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais: Re: Datblygiad Tai Annedd 34 Uned (gan gynnwys 10 o Unedau Tai fforddiadwy). Tir tu cefn i Gylch Peris, Llanon.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gadarnhau statws y safle datblygu arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol cyn ystyried ymateb i'r ymgynghoriad.

**257 Y Man Chwarae**
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc atgoffa'r Cyngor Sir am cais y Cyngor hwn iddynt wneud y gwelliannau a argymhellwyd gan Wicksteed.

**258 Datblygu'r Cyrtiau Tenis**
Dywedodd y Clerc fod y gwaith o ddarparu ardal chwarae aml-ddefnydd, ynghŷd â gosod tarmac ar y ddau gwrt gan y contractwyr wedi'i gwblhau. Mynegodd Aelodau pryderon fod y ddau dwll ar gyfer y ddau bostyn netiau tenis ar y cwrt 'MUGA' wedi'u llenwi a bod yr arwyneb newydd a osodwyd yn ymddangos yn anwastad.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc fynegu pryderon y Cyngor i Swyddog y Cyngor Sir, gan ofyn fod y pryderon yma'n cael eu datrys cyn fod unrhyw taliad yn cael ei

**255 Finance Matters**

It was **RESOLVED**

i) to pay the following invoices:

| | |
|---|---|
| Vision ICT | £150 |
| Ground Tech Ltd. | £1,800 |
| Glasdon (Dolphin Bin Door) | |
| £164.60 | |
| *Clerk's Salary (Oct-Nov-Dec)* | |
| Mr Denfer Morgan | £605.43 |
| HMRC (PAYE) | £151.36 |

ii) to prepare the Budget and set the Precept for 2019-20 at the January meeting.

**256 Planning Application**
Consideration was given to Pre-Application Consultation Re: Residential Development of 34 Units (including 10 Affordable Housing Units). Land rear of Cylch Peris, Llanon.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to ascertain the status of the proposed development site in the Local Development Plan prior to considering responding to the consultation.

**257 Playground**
It was **RESOLVED** to request the Clerk to remind the County Council of the Council's request for them to undertake the repairs recommended by Wicksteed.

**258 Tennis Courts Development**
The Clerk advised that the work to provide a multi-use games area on one of the courts, together with the application of tarmac on both courts by the contractors had been completed. Members raised concerns that the two holes for locating the two tennis net posts on the 'MUGA' court had been filled in and that the newly-laid surface appeared to be uneven.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to convey the Council's concerns to the County Council Officer, requesting that the concerns be resolved prior to any payment

wneud.

being made.

**259 Y Chalet**
Dywedodd y Clerc fod y cais am Grant y Loteri Cenedlaethol yn cael ei baratoi.

**259 The Chalet**
The Clerk stated that the application for National Lottery Grant was being prepared.

**260 WASPI - Women Against State Pension Inequality**
Yn dilyn trafodaeth ar amcanion yr ymgyrch uchod **PENDERFYNWYD** ysgrifennu i gefnogi'r ymgyrch.

**260 WASPI - Women Against State Pension Inequality**
Following a discussion about the aims of the above-mentioned campaign, it was **RESOLVED** to write in support of the campaign.

**261 Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr**
Rhoddwyd ystyriaeth i wahoddiad i Aelodau fynd i Sesiwn Hyfforddiant 'Codi Ymwybyddiaeth o'r Cod Yddygiad' am 7:00pm ar 4ydd Chwefror 2019 yn Neuadd Cyngor Ceredigion. Nodwyd bod Aelodau yn cael eu hargymell i fynd iddo fe er mwyn derbyn cyngor gan Swyddog Monitro'r Sir.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc atgoffa'r Aelodau am y Sesiwn yn gynnar ym mis Ionawr.

**261 Code of Conduct Training for Councillors**
Consideration was given to the invitation for members to attend a 'Raising Awareness of the Code of Conduct' Training Session at 7:00pm on 4th February 2019 at Neuadd Cyngor Ceredigion. It was noted that Members were encouraged to attend to receive advice on the Code by the County Monitoring Officer.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to remind Members of the Session in early January.

**262 Unrhyw Fater Arall**
a) Dywedodd y Clerc ei fod wedi cael gair gyda Mr Iori reed am fwriad y Cyngor I enwi'r cyrtiau chwareuon Newydd er cof am ei ferch Non, ac ei fod yn disgwyl ateb.
b) Dywedodd y Cynghorydd Gwenno Piette y chwilir am wirfoddolwyr i gynorthwyo gydag adfer y Chalet.
c) Dywedodd y Cynghorydd Bryan Tomlins fod angen treafodaeth pellach ar leoliad y banciau poteli ym Maes Parcio'r Waun a chytunwyd cynnwys item ar yr agenda nesaf.
d) Cytunwyd cynnal y swper blynyddol yn nhafarn y White Swan ar nos Wener 11eg Ionawr.

**262 Any Other Business**
a) The Clerk advised that he had approached Mr Iori Reed about the Council's proposal for the naming of the new games courts in memory of his daughter Non, and was awaiting a reply.
b) Councillor Gwenno Piette advised that volunteers were being sought for renovating the Chalet.
c) Councillor Bryan Tomlins indicated that further consideration should be given to the location of the bottle banks at the Waun Car Park and it was agreed that and item be included on the next agenda.
d) It was agreed that the Annual Dinner be held at the White Swan on Friday 11th January.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30 p.m.

The meeting concluded at 9:30 p.m.